# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 5

SWYDDOGAETHAU AWDURDOD LLEOL:
CYFLAWNI GAN BWYLLGORAU A CHYNGHORWYR

*Arfer swyddogaethau gan gynghorwyr*

### 56 Arfer swyddogaethau gan gynghorwyr

(1) Caiff aelod gweithrediaeth hŷn awdurdod lleol wneud trefniadau i aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod gweithrediaeth arfer un o swyddogaethau'r awdurdod lleol y mae'r weithrediaeth yn gyfrifol amdani.

(2) Caiff awdurdod lleol wneud trefniadau i aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod gweithrediaeth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau eraill yr awdurdod.

(3) O ran aelod nad yw'n aelod gweithrediaeth (N), dim ond swyddogaethau—

(a) mewn perthynas â'r adran etholiadol y mae N wedi ei ethol drosti, neu

(b) mewn perthynas â bod N yn aelod swyddogol o gorff ac eithrio'r awdurdod lleol

y caiff trefniadau o dan yr adran hon ddarparu i N eu harfer.

(4) Ni cheir gwneud trefniadau o dan yr adran hon ar gyfer arfer swyddogaeth—

(a) os yw wedi ei phennu, neu i'r graddau y mae wedi ei phennu, mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, neu

(b) mewn dull, neu mewn amgylchiadau, a bennwyd mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.

(5) Nid yw trefniadau a wneir o dan yr adran hon ar gyfer arfer swyddogaeth yn atal arfer y swyddogaeth honno mewn modd arferol.

(6) Wrth wneud trefniadau o dan yr adran hon, rhaid i'r aelod gweithrediaeth hŷn, neu'r awdurdod lleol, roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(7) Yn yr adran hon—

(a) mae cyfeiriad at arfer swyddogaeth yn cynnwys cyfeiriad at wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer swyddogaeth, neu sy'n gydnaws neu'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaeth;

(b) mae cyfeiriad at swyddogaeth y mae gweithrediaeth awdurdod lleol yn gyfrifol amdani i'w ddehongli'n unol ag adran 13(8) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(c) mae cyfeiriad at fod N yn aelod swyddogol o gorff yn gyfeiriad at fod N yn aelod o'r corff yn rhinwedd—

(i) penodiad gan awdurdod lleol,

(ii) penodiad, ac eithrio penodiad gan awdurdod lleol, a wnaed ar sail enwebiad neu argymhelliad gan awdurdod lleol neu gyda chymeradwyaeth awdurdod lleol, neu

(iii) penodiad, ac eithrio penodiad gan awdurdod lleol, a wnaed i gydymffurfio â gofyniad i benodi aelod o awdurdod lleol;

(d) mae cyfeiriad (mewn perthynas ag N) at benodiad, enwebiad neu argymhelliad gan awdurdod lleol, neu gymeradwyaeth awdurdod lleol, yn gyfeiriad at benodiad, enwebiad neu argymhelliad a wnaed gan y canlynol, neu gymeradwyaeth a roddir gan y canlynol—

(i) yr awdurdod lleol y mae N yn aelod ohono, neu

(ii) gweithrediaeth yr awdurdod lleol hwnnw;

(e) mae cyfeiriad at arfer arferol swyddogaeth yn gyfeiriad at arfer y swyddogaeth gan y person neu'r personau sy'n ei harfer pan nad oes trefniadau wedi eu gwneud o dan yr adran hon.

(8) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at awdurdod lleol yn gyfeiriadau at awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "aelod gweithrediaeth hŷn" (*"senior executive member"*) yw—

(a) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), yr arweinydd gweithrediaeth;

(b) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, y maer etholedig;

ystyr "aelod nad yw'n aelod gweithrediaeth" (*"non-executive member"*) yw aelod o awdurdod lleol nad yw'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod.